



Lle Parcio i'r Anabl

Bocs siâp petryal wedi'i farcio yw lle parcio i'r anabl, sy'n cynnwys y geiriau ANABL/DISABLED ynghyd â'r arwydd rheoleiddio cysylltiedig ar y stryd, ac mae'n gyfleuster ar gyfer pobl anabl.

NID yw lle parcio i'r anabl ar gyfer defnydd y person wnaeth ymgeisio amdano'n unig. Gall unrhyw yrrwr sy'n arddangos bathodyn glas dilys ddefnyddio'r lle parcio.

Os ydych am wneud cais am le parcio i'r anabl ar Gefnffordd h.y. A40 A48 A477 neu A483, cysylltwch ag Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru ar 0300 123 1213.

Sut mae gwneud cais?

I gael eich ystyried ar gyfer lle parcio i'r anabl, mae'n rhaid i chi fodloni'r meini prawf personol canlynol:

- Mae gennych Fathodyn Glas ac rydych yn derbyn cyfradd uwch elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (HRMCDLA) / Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) / Lwfans Gweini.

NEU

- Rydych yn defnyddio cadair olwyn ac yn gallu gwthio'r gadair y tu allan am bellter byr iawn yn unig

NEU

- Rydych yn dioddef problemau cylchrediad parhaol a sylweddol (e.e. heb goesau, diffygion o ran asgwrn cefn neu system nerfol ganolog) sy'n arwain at symudedd cyfyngedig difrifol a/neu ddibyniaeth barhaol ar galiperau/baglau penelin/cymhorthion symudedd.

Yn ogystal, mae'n rhaid:

- nad oes lle parcio digonol ar eich stryd ac mae'n rhaid ei bod yn ddiogel darparu lle parcio.
- nad oes lle parcio oddi ar y ffordd ar gael i chi megis garej hygyrch neu lecyn llawr caled.
- bod y lle parcio ar gyfer casglu/gollwng o fewn 25 metr o'r eiddo

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, codir tâl o £250 am osod y lle parcio.

Sut yr ydym yn asesu eich cais

Oherwydd cyllideb gyfyngedig a galw mawr am leoedd parcio i bobl anabl, mae system flaenoriaethu wedi cael ei datblygu. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ffeithiau ac arsylwadau a gofnodwyd er mwyn asesu a blaenoriaethu pob cais.

Meini Prawf Asesu	Sgôr Uchaf
Parcio addas oddi ar y stryd	20 pwynt
Aliniad y ffordd, parcio a reoleiddir a diogelwch	10 pwynt
Rhaid i led y ffordd fod o leiaf 5.2 metr	10 pwynt
Dosbarthiad y ffordd	10 pwynt
Arolwg parcio (4 ymweliad)	20 pwynt

Rhaid cael isafswm sgôr o 35 o bwyntiau cyn bod cais yn cael ei osod ar restr flaenoriaethu. Caiff y rhestr ei gosod mewn trefn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Bydd y ceisiadau â'r sgorau uchaf yn cael gwybod eu bod wedi cyrraedd cyfnod ymgynghori'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Bydd ceisiadau aflwyddiannus sydd â sgôr yn llai na 35 o bwyntiau yn cael gwybod a bydd y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

Byddwn yn:

- ymweld â'ch cartref ar amseroedd gwahanol bedair gwaith a byddwn yn asesu pa mor anodd yw parcio ar eich stryd.
- cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus â'r gwasanaethau argyfwng, grŵp mynediad pobl anabl lleol, cyngorwyr sir lleol ynghyd â pherchnogion a phreswylwyr eiddo cyfagos.

Cofiwch fod y broses hon yn gallu bod yn un hirfaith gan mai unwaith y flwyddyn yn unig mae'r rhestr o geisiadau yn cael ei hadolygu. Yn dibynnu pryd rydych yn gwneud y cais, gallai gymryd hyd at 12 mis.

Symud tŷ

Os ydych yn symud tŷ a bod gennych le parcio i'r anabl, mae angen i chi roi gwybod i ni ac os nad oes unrhyw ddeiliad bathodyn glas arall yn gallu defnyddio'r lle, byddwn yn trefnu iddo gael ei waredu.

Ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu

Os yw eich ffordd heb ei mabwysiadu, byddai'n rhaid i chi gael caniatâd/sêl bendith pawb sy'n byw ar y ffordd honno.

Marciau Gorfodi

Mae marciau gorfodi sydd â Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn rhai y gellir eu gorfodi gan y swyddogion gorfodi sifil.

Dychwelyd eich cais

Dychwelwch eich ffurflen gais, ynghyd â chopïau o'ch bathodyn glas (blaen a chefn) a'ch prawf diweddaraf o hawl i fudd-daliadau i

Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Adran Lle a Seilwaith, Rheoli Traffig, Cyngor Sir Caerfyrddin, Parc Myrddin, Caerfyrddin SA31 1HQ neu drwy e-bost at RheoliTraffig@sirgar.gov.uk



CAIS AM LE PARCIO I'R ANABL

Teitl	
Enw Cyntaf	
Cyfenw	
D.G.	
Cyfeiriad	
Rhif Ffôn	
E-bost	
Pam ydych chi'n gwneud cais am le parcio i'r anabl?	
A oes gennych dramwyfa/llawr caled neu le parcio arall ar hyn o bryd?	Oes / Nac oes
Os nad oes, a oes lle ar gyfer parcio oddi ar y stryd ger yr eiddo?	Oes / Nac oes
A yw'r lle parcio arfaethedig i'r anabl y tu allan i gartref y person anabl?	Ydy / Nac ydy
Pwy sy'n berchen ar yr eiddo? <ul style="list-style-type: none">• meddiannydd• landlord preifat• awdurdod lleol• cymdeithas dai	
Ai'r person anabl sy'n gyrru'r cerbyd?	Ie / Nage
A yw'r gyrrwr anabl yn mynd mewn i'r cerbyd drwy'r cefn?	Ydy / Nac ydy
Manylion y cerbyd <ul style="list-style-type: none">• gwneuthuriad a model• rhif cofrestru	

A yw'r cerbyd wedi'i gofrestru yn enw'r gyrrwr anabl?	
Sawl cerbyd sydd wedi'i gofrestru yn yr eiddo hwn?	
A yw'r person anabl yn ddeiliad bathodyn glas?	Ydy / Nac ydy
<p>Os ydyw, darparwch</p> <ul style="list-style-type: none"> rhif cyfeirnod y bathodyn glas y dyddiad daw'r bathodyn glas i ben <p>Mae angen rhagor o dystiolaeth o un o'r canlynol hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datganiad o Hawl i Daliad Annibyniaeth Personol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> Llythyr dyfarniad Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel (WPMS) Asiantaeth Feteraniaid y DU ar bapur pennawd swyddogol 	<hr/> <hr/> <div style="border: 1px solid black; height: 40px; width: 100%;"></div> <div style="border: 1px solid black; height: 40px; width: 100%;"></div>

**Cofiwch gynnwys copïau o'ch bathodyn glas
(blaen a chefn) a'ch prawf diweddaraf o hawl i fudd-daliadau.**

- ✓ Rwyf yn cadarnhau bod y manylion a ddarperir yn gywir
- ✓ Rwy'n cadarnhau fy mod yn ymwybodol, os byddaf yn llwyddiannus yn y broses ymgeisio, y codir tâl o £250
- ✓ Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y canllawiau ceisiadau lle parcio i'r anabl sydd ar eich tudalen we: <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/ymgeisio-am/mynediad-i-lleoedd-parcio-ir-anabl/>

Llofnod yr ymgeisydd _____

Dyddiad _____

E-bostiwch i: RheoliTraffig@sirgar.gov.uk

Postiwch i:-

Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Adran Lle a Seilwaith, Rheoli Traffig, Cyngor Sir Caerfyrddin, Parc Myrddin, Caerfyrddin SA31 1HQ